

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(COWBRIDGE ROAD A ST ATHAN ROAD, SAIN TATHAN)
CYFYNGIAD A DIRYMIAD CYFLYMDER 30MYA A 40MYA) 2022**

1. Ar 3 Mawrth 2022, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adran 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Mawrth 2022 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd ar waith, pa un bynnag yw'r hwyraf a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Cowbridge Road A St Athan Road, Sain Tathan) Cyfyngiad A Dirymiad Cyflymder 30MYA A 40MYA) 2022. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/hysbysiadaucyfreithiol>
3. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r bwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 14 Mawrth 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

ATODLEN 1

Dirymu'r Gorchymynion cyfyngiad cyflymder canlynol yn ei gyfanrwydd:

Gorchymyn Cyngor Sir De Morgannwg (St. Athan Road, Eglwys Brewys, SainTathan) (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya) 1988

ATODLEN 2

Ni fydd unrhyw berson achosi neu'n caniatáu i gerbyd deithio'n gyflymach na 30 milltir yr awr ar hyd y darnau canlynol o ffyrdd:

Cowbridge Road (rhan) a St Athan Road (rhan), Sain Tathan.

O ganol ei chyffordd â Bingle Lane, i gyfeiriad y gogledd a'r gogledd-orllewin am bellter o tua 1,280 metr, yn gydgyffyrddol â'r cyfyngiad cyflymder 40mya.

ATODLEN 3

Ni fydd unrhyw berson achosi neu'n caniatáu i gerbyd deithio'n gyflymach na 40 milltir yr awr ar hyd y darnau canlynol o ffyrdd:

St Athan Road (rhan), Sain Tathan

O bwynt tua 250 metr i'r gogledd-orllewin o ganol 'ar gyffordd cylchfan â Cowbridge Road, Eglwys Brewis Road a Ffordd y Spitfire, tua'r gogledd-orllewin am bellter o tua 1,330 metr.

Dyddiad: 10 Mawrth 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA